Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

# Cais am dystysgrif gofrestru cerbyd

**V62W**

Am ragor o wybodaeth ewch i **www.gov.uk/vehicle-registration**

**Darllenwch y nodiadau hyn yn ofalus.**

## A Pan ddylech chi ddefnyddio'r ffurflen hon

Defnyddiwch y ffurflen hon i wneud cais am dystysgrif gofrestru cerbyd (V5CW):

- os ydych wedi prynu'r cerbyd ond heb gael y V5CW yn eich enw chi (dylech ganiatáu 4 wythnos o'r dyddiad pan brynoch y cerbyd cyn defnyddio'r ffurflen hon), neu
- os yw'r V5CW wreiddiol wedi'i cholli, ei dwyn, ei difrodi neu ei dinistrio.

Os ydych wedi cael V5CW yn eich enw ar gyfer y cerbyd hwn o'r blaen, ac nid oes newid i'r manylion cerbyd neu eich manylion personol, gallwch wneud cais am un ddyblyg drwy ffonio 0300 790 6802 neu 0300 790 6819 am y llinell uniongyrchol Gymraeg. Gwnewch yn siŵr fod gennych gerdyn debyd neu gerdyn credyd wrth law pan fyddwch yn ffonio, oherwydd efallai y bydd angen ichi dalu'r ffi o £25 (gweler adran D).

**Noder:** Peidiwch â llenwi'r ffurflen hon os yw'ch cerbyd wedi cael ei gategoreiddio fel cerbyd adfer A neu B oherwydd ni fyddwn yn cyhoeddi tystysgrif gofrestru cerbyd (V5CW). Ni ddylai'r cerbydau hyn gael eu gyrru ar y ffyrdd. Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar gategorïau adfer o'r cwmni yswiriant.

## B Llenwi'r ffurflen hon

Os na fyddwch yn rhoi'r manylion canlynol, ni fyddwn yn gallu delio â'ch cais a bydd yn cael ei ddychwelyd ichi i lenwi:

- holl fanylion y cerbyd yn adran 1
- eich enwau llawn yn adran 2 a pheidiwch â defnyddio llythrennau blaen yn unig neu roi enwau ar y cyd (er enghraifft, enw gŵr a gwraig neu enw tad a mab)
- cyfeiriad yn y Deyrnas Unedig (DU) yn adran 2
  (nid yw cyfeiriad blwch Swyddfa'r Post yn dderbyniol oni bai fod y cais dan enw cwmni sydd â chyfeiriad post llawn).

Bydd y wybodaeth ganlynol yn ein helpu i brosesu eich cais

- Dyddiad geni (dim angen gydag enw a chyfeiriad cwmni).
- Rhif ffôn cyswllt a chyfeiriad e-bost.

Wrth lenwi adran 3, gall masnachwr moduron fod:

- yn ddeliwr moduron
- yn arwerthwr cerbydau modur
- yn yswiriwr cerbydau modur rydych wedi setlo hawliad yswiriant ag ef
- yn ddatgymalwr cerbydau modur (deliwr adfer), neu
- yn gwmni cyllid sydd â budd ariannol yn y cerbyd

Rhaid ichi hefyd lofnodi'r ffurflen hon yn adran 5.

## C Sut i dalu ac i ble i anfon y ffurflen hon

Y ffi ar gyfer y cais hwn yw £25 (adeg argraffu'r ffurflen).
Os ydych yn anfon y ffurflen hon yn uniongyrchol i'r DVLA gwnewch sieciau neu archebion post yn daladwy i 'DVLA, Abertawe'. **Peidiwch ag anfon arian parod nac archebion post heb eu llenwi**. Ni allwn dderbyn sieciau sydd wedi'u difrodi neu wedi'u newid. Os ydych yn anfon siec sydd wedi'i difrodi neu wedi'i newid, bydd eich cais yn cael ei wrthod a'i ddychwelyd ichi. Anfonwch y ffurflen hon i DVLA, Abertawe, SA99 1DD.
Os ydych hefyd yn trethu eich cerbyd gweler adran F.

## D Pan na chodir ffi

Nid oes yn rhaid ichi dalu ffi dan yr amgylchiadau canlynol:

- Os mai chi yw'r ceidwad newydd ac roedd y ceidwad blaenorol wedi methu â rhoi gwybod inni am y newid, mae'n rhaid bod gennych y slip ceidwad newydd (slip gwyrdd) o'r V5CW a'i anfon inni gyda'r ffurflen gais hon. Nid yw llungopïau yn dderbyniol.
- Os yw'r cerbyd wedi ei gategoreiddio fel cerbyd adfer categori C neu S gan gwmni yswiriant ac maent wedi dinistrio'r V5CW. Fodd bynnag, os ydych hefyd yn trethu eich cerbyd mewn cangen o Swyddfa'r Post sy'n delio â threth cerbyd, bydd angen ichi dalu'r ffi a geir ei ad-dalu ar ôl i DVLA gynnal gwiriadau.

## E Pan ddylech chi dderbyn y V5CW

Dylech dderbyn y V5CW o fewn:

- 2 wythnos os ydych wedi'ch cofrestru eisoes fel y ceidwad cofrestredig, neu
- 4 wythnos os yw'r ceidwad wedi newid.

**Fodd bynnag, os na fydd yn eich cyrraedd o fewn yr amser yma, dylech adael 6 wythnos cyn cysylltu â ni.**

**Noder:** bydd y cyfeiriad ar y V5CW yn ymddangos yn fformat dewisol y Post Brenhinol. Efallai na fydd yn union yr un fath â'r un a roddir yn eich cais.

## F Beth i'w wneud os oes hefyd angen ichi drethu'ch cerbyd

Os ydych wedi prynu'r cerbyd ac am ei yrru ar y ffordd mae'n rhaid ichi ei drethu ar unwaith. Os oes gennych chi'r slip ceidwad newydd (slip gwyrdd) gallwch ei drethu ar-lein yn www.gov.uk/treth-car neu gallwch drethu eich cerbyd mewn cangen Swyddfa'r Post® sy'n delio â threth cerbyd drwy ddefnyddio'r darn gwyrdd. Mae'n bosibl y bydd hefyd angen ichi lenwi'r ffurflen hon os mai dim ond y V5CW sydd gennych.

**Os nad yw'r V5CW neu'r darn gwyrdd gennych bydd angen ichi lenwi'r ffurflen hon a thalu'r ffi.**

Gallwch dalu trwy arian parod, debyd uniongyrchol, cerdyn debyd, cerdyn credyd, siec neu archeb bost (yn daladwy i Swyddfa'r Post Cyf.), cerdyn cyllido Swyddfa'r Post®, neu drwy sieciau teithio (mewn punnoedd sterling).

Os nad chi yw ceidwad cofrestredig y cerbyd efallai na fyddwch yn gallu ei drethu nes byddwch yn cael V5CW yn eich enw chi.

Os ydych wedi newid eich cyfeiriad rhaid ichi gwblhau'ch cod post blaenorol yn y blwch dan eich llofnod ar flaen y ffurflen hon.

## G Beth i'w wneud os oes angen ichi hefyd wneud Hysbysiad Oddi ar y ffordd Statudol (HOS)

Os ydych yn cadw'r cerbyd oddi ar y ffordd, mae angen ichi wneud HOS gyda'r cais hwn. **Os ydych wedi prynu'r cerbyd yn ddiweddar, ni ellir trosglwyddo HOS o'r ceidwad blaenorol. Bydd angen ichi wneud HOS newydd.** Os na fyddwch yn gwneud HOS, gellir dwyn achos cyfreithiol yn eich erbyn. Os mai chi yw'r ceidwad cofrestredig pan fyddwn yn derbyn eich HOS, cewch dderbyn ad-daliad awtomatig o dreth cerbyd ar gyfer unrhyw fisoedd llawn sy'n weddill. Os ydych wedi talu trwy Ddebyd Uniongyrchol (DD), bydd y DD yn cael ei ganslo.

I wneud HOS, llenwch Hysbysiad Oddi ar y ffordd Statudol (HOS) (V890W), sydd ar gael:

- o'r wefan yn **www.gov.uk/gwneud-hos**
- o Ymholiadau Cwsmeriaid DVLA (gweler manylion cyswllt yn adran I).

**Gwnewch yn siŵr eich bod yn atodi'r V890W i'r ffurflen hon.**

## H Diogelu Data – rhyddhau gwybodaeth

Mae DVLA yn trafod eich data personol yn unol â chyfraith cerbydau ffyrdd a chyfreithiau gwarchod data. Mae'r gyfraith yn ein galluogi ni i ryddhau eich data i'r heddlu a chyrff gorfodaeth eraill. Rydym hefyd yn darparu data i gwmnïau eraill ble y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu. Am wybodaeth bellach ynghylch sut rydym yn prosesu eich data, eich hawliau a phwy i gysylltu gyda, gweler ein hysbysiad preifatrwydd yn www.gov.uk/government/publications/dvla-privacy-policy.cy

## I Gwybodaeth bellach

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn **www.gov.uk**

Gallwch gysylltu â ni yn y ffyrdd canlynol:

Dros y ffôn: 0300 790 6802 neu 0300 790 6819 am y llinell uniongyrchol Gymraeg (Mae'r llinellau ffôn ar agor rhwng 8am a 7pm, dydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 8am a 2pm ar ddydd Sadwrn. Bydd rhai galwadau'n cael eu monitro i sicrhau eu hansawdd ac at ddibenion hyfforddi.)

Trwy ysgrifennu i: Ymholiadau Cwsmeriaid (Cerbydau), DVLA, Abertawe SA6 7JL.

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID

INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

Prynu cerbyd?
Nid yw'r dreth yn drosglwyddadwy mwyach felly rhaid i chi ei drethu cyn i chi ei ddefnyddio
www.gov.uk/vehicletaxrules

**Darllenwch y nodiadau cyfarwyddyd dros y dudalen cyn llenwi'r ffurflen hon.**
**Ysgrifennwch yn glir mewn inc du gan ddefnyddio PRIF LYTHRENNAU.**

## 1. Manylion y cerbyd

**Rhif Cofrestru Cerbyd:** 2

Gwneuthuriad: ______

Model: ______

Lliw: ______

Dosbarth treth: (er enghraifft,
Cerbyd Nwyddau Ysgafn/Preifat, Car Petrol, Anabl): ______

**VIN, rhif y siasi neu'r ffrâm:**
(dangosir hwn fel rheol ar blât ger yr injan)
**Os na fyddwch yn rhoi'r wybodaeth hon, byddwn yn ei dychwelyd atoch.**

## 2. Manylion y ceidwad

**Dylai busnes neu sefydliad nad yw wedi ei gofrestru fel CCC neu CYF roi enw'r unigolyn cyfrifol yn y blychau isod hefyd.**

Teitl: Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Arall (Dr, er enghraifft) ☐

Enw busnes neu sefydliad: ______ 9

Enwau cyntaf: ______ 10

Cyfenw: ______

**At ddefnydd cwmnïau yn unig**
Rhif fflyd DVLA/DVA 32

**Cyfeiriad presennol**

Rhif y tŷ: Cyfeiriad llawn: ______ 11

______ 12

Tref bost: ______

Cod post 13 Dyddiad geni D D M M B B B B 31

Rhif ffôn cyswllt:

Cyfeiriad e-bost cyswllt: ______

**Ydych chi wedi cael tystysgrif gofrestru cerbyd (V5CW) ar gyfer y cerbyd hwn yn eich enw chi?** Do ☐ Naddo ☐

Os **naddo**, pryd gawsoch chi'r cerbyd? D D M M B B B B 14

Eich rhif trwydded yrru (nid yw'n ofynnol dan y gyfraith):

## 3. Pam nad oes gennych chi V5CW? (Rhowch ☒ gyferbyn ag unrhyw rai sy'n berthnasol)

- Prynais y cerbyd oddi wrth y ceidwad blaenorol neu fasnachwr moduron ac nid wyf wedi cael V5CW eto. Dylech ganiatáu pedair wythnos o'r dyddiad pan brynoch y cerbyd cyn ichi ddefnyddio'r ffurflen hon. ☐
- Mae wedi'i cholli, ei dwyn, ei difrodi neu ei dinistrio. ☐
- Ni allaf ei chyflwyno am reswm arall. (Nodwch y rheswm isod) ☐

______

## 4. Ffi

- Amgaeaf y ffi o **£25** ☐
- Nid wyf yn amgáu'r ffi oherwydd:
  - fi yw'r ceidwad newydd, ac rwyf wedi amgáu'r slip y ceidwad newydd (slip gwyrdd) neu ☐
  - fe wnaeth cwmni yswiriant ddinistrio'r V5CW gan eu bod yn honni bod y cerbyd yn gerbyd adfer categori C neu S (gweler adran D dros y dudalen). ☐

## 5. Datganiad

Rwyf wedi gwirio'r wybodaeth ar y cais hwn, ac mae'n gywir, hyd eithaf fy ngwybodaeth.
Os byddaf yn dod o hyd i'r V5CW neu os bydd y ceidwad blaenorol yn ei rhoi imi, byddaf yn ei hanfon i DVLA, Abertawe

**Milltiroedd:** 28 (Yn ôl y gyfraith, nid oes rhaid ichi nodi'r milltiroedd presennol.)
(i'r filltir gyfan ddiwethaf)

Llofnod: ______ Dyddiad: D D M M B B B B

Cwblhewch y cod post blaenorol os yw'r cyfeiriad wedi newid ers cael y cerbyd hwn

Cod post blaenorol

**Official use only V62W**
10/22

| | | |
|---|---|---|
| VC | | 3 |
| MKE | | 4 |
| MDL | | 5 |
| CLR | | 6 |
| TC | | 7 |
| V10/V85/V70 Proc | L | |
| Independent | Ø | 8 |

DVLA Date Stamp

| | | |
|---|---|---|
| DOE | | |
| CD | | 15 |
| FI | | 16 |
| ISC | | 17 |
| UW | | 18 |
| DOW | | 19 |
| SC | | 20 |
| EN | | 21 |
| CC | | 22 |
| W/BT | | 23 |
| F | | 24 |
| AM | | 25 |
| RW | | 26 |
| DOP | | 27 |
| SP | | 29 |
| PWR | | 30 |
| ID | N / A | |
| DUP V5 | | |

V62W-1022